# Y Pwyllgor Deisebau

**PET(3)-02-10 Papur 1 : 1 Chwefror 2010**

## Sesiwn dystiolaeth

Bydd y Pwyllgor yn clywed tystiolaeth lafar gan Gyngor Pobl Gogledd Cymru a Chynghrair Merswy Dyfrdwy

### P-03-243 Tynnu'n ôl yn ffurfiol o strategaeth is-ranbarthol Gorllewin Caer / Gogledd-ddwyrain Cymru

### Geiriad y ddeiseb

Rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth Cynulliad Cymru i dynnu'n ôl yn ffurfiol o strategaeth is-ranbarthol Gorllewin Caer / Gogledd-ddwyrain Cymru.   Rydym ni, yr isod, yn dadlau fod strategaeth is-ranbarthol Gorllewin Caer / Gogledd-ddwyrain Cymru yn gynllun di-feddwl, hynod niweidiol a thwyllodrus.   Mae'r oblygiadau'n enfawr, gan effeithio ar nifer fawr o agweddau ar fywyd yng Ngogledd Cymru. • Hunaniaeth a hawliau dynol (yn nhermau hunaniaeth Gymreig, iaith, diwylliant, cymeriad a mynegiant) • Amgylcheddol (yn nhermau cynaliadwyedd, ecoleg, yr amgylchedd a'r amgylchedd adeiladol); a • Cynaliadwyedd cymdeithasol (yn nhermau demograffeg, economeg, gwleidyddiaeth a chymunedau).

**Linc i'r ddeiseb:** h

ttp://www.cynulliadcymru.org/gethome/e-petitions-old/admissible-pet/p-03-243.htm

**Cynigiwyd y ddeiseb gan:** Cyngor Pobl Gogledd Cymru

**Nifer y llofnodion:** 15220 (yn ychwanegol at hyn, mae'r deisebwyr wedi casglu 4500 o lofnodion ychwanegol ers cyflwyno'r ddeiseb)

**Ystyriwyd yn flaenorol gan y Pwyllgor ar:** 8 Rhagfyr 2009 a 19 Ionawr 2010

### Gwasanaeth y Pwyllgorau

### Ionawr 2010